Adroddiad Blynyddol 2010 – 2011

Gorffennaf 2011

Cynnwys

Adroddiad y Cadeirydd

Adroddiad Swyddog

Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru

1. Amcanion

2. Cefndir

3. Pwyllgor Rheoli Cwmni Mentrau Iaith Cymru

4. Staff Mentrau Iaith Cymru

5. Gweithgareddau Mentrau Iaith Cymru

6. Edrych Ymlaen

7. Casgliadau Clo

8. Atodiadau

Mentrau Iaith 2010 - 2011

Gweithgaredd mentrau iaith 2009-2010

Datganiad Ariannol

Adroddiad y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru am y flwyddyn 2010-2011 ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Mae wedi bod yn flwyddyn diddorol o ran datblygiadau'r Gymraeg, gyda'r Mesur Iaith yn cyrraedd diwedd ei thaith a chyflwyniad drafft o'r strategaeth iaith newydd sef Iaith Fyw:Iaith Byw.

Mae Mentrau Iaith Cymru yn parhau gyda'r gwaith o ymgyrchu dros y Gymraeg ac y mentrau. Rydym wedi mewnbynnu i brosesau y Llywodraeth o ddatblygu'r Mesur Iaith drwy gynnig ymateb ysgrifenedig yn ogystal a thystiolaeth i bwyllgor craffu y Mesur. Rydan ni hefyd wedi mewnbynnu i'r strategaeth iaith newydd a llythyru aelodau'r Cynulliad am bwysigrwydd dyfodol y Gyrmaeg.

Bydd oel y gwaith pwysig yma yn amlygu ei hun yn ystod y cyfnod nesaf o ddatblygu'r Gymraeg, gyda'r mentrau iaith yn rhan allweddol o stratagaethau a chynlluniau fydd yn effeithio ar yr iaith.

Mae prosiectau llwyddiannus yn parhau megis Brwydr y Bandiau (ar y cyd â BBC Radio Cymru) a Menter Patagonia. Gan bod y prosiectau wedi sefydlu eu hunain, mae'n hawdd anghofio eu pwysigrwydd i godi proffil y mentrau.

Bydd y strwythr cefnogi'r Mentrau Iaith o gyfeiriad y Llywodraeth yn newid gan fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei ddiddymu, ond gan obeithio bydd y strwythr newydd yn galluogi'r mentrau i barhau i ddatblygu ac esblygu yn y dyfodol.

Diolch i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r mentrau am eu cefnogaeth dros y flwyddyn. Edrychwn ymlaen i'r flwyddyn nesaf pryd bydd y strategaeth iaith newydd yn dechrau cael ei weithredu a bydd y comisiynnydd iaith newydd yn ei le.

Rwy'n sicr bydd y mentrau a Mentrau Iaith Cymru yn chwarae rhan allweddol i wireddu amcanion y Llywodraeth ac edrychwn ymlaen i gydweithio gyda'n partneriaid i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg.



John Llewellyn Thomas

Cadeirydd

Gorffennaf 2011

Adroddiad Swyddog

Yn 2010-2011 mae Mentrau Iaith Cymru wedi gwneud mwy o ymgyrchu a lobio nag erioed o'r blaen. Rydym wedi mewnbynnu i ddatblygu seilweithiau i'r Gymraeg gyda'r Mesur Iaith, wedi cyflwyno ein barn am Iaith Fyw:Iaith Byw ac y Strategaeth Addysg Gymraeg, ac wedi derbyn cefnogaeth Aelodau Cynulliad a Seneddol i waith y mentrau iaith ar draws Cymru.

Ond mae dal sialens mawr o'n blaenau. Mae adnoddau prin i'r Gymraeg ynghyd a gweledigaeth uchelgeisiol (sydd i'w ganmol wrth gwrs) gan y Llywodraeth yn golygu bod angen cynyddu'r adnoddau neu cwtogi ar beth all ei gyflawni. Gyda creu Cymru dwyieithog yn rhan allweddol o addewidion y Llywodraeth, teimlwn ei bod yn angenrheidiol cynyddu yr adnoddau sydd ar gael i wireddu amcanion y Llywodraeth yn hytrach na cwtogi ar weithgaredd.

Nid yw cyllideb i'r Gymraeg gan y Llywodraeth wedi cynyddu dros y blynyddoedd diweddar, ond ar ol dweud hyny mae'n galonogol nad oedd toriadau mawr i'r gylllideb o'i gymharu a meysydd eraill y Llywodraeth.

Mae'n debygol bydd rhaid edrych ar rannu adnoddau gyda partneriaid i arbed costau a chynnyddu effeithiolrwydd yn y dyfodol. Felly mae'n fendith bod y mentrau yn gweithio mor agos yn barod ac mewn sefyllfa i gydweithio yn agosach fyth yn y dyfodol.

Yn ystod y newidiadau yma bydd Mentrau Iaith Cymru yn parhau i weithio tuag at sicrhau y sefyllfa gorau i'r iaith ffynnu ac hyny ar y cyd â'r mentrau iaith.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn, gan edrych ymlaen at y sialensau o'n blaenau gyda ffydd fod gan y mentrau iaith ran hanfodol i'w chwarae yn nyfodol y Gymraeg.

Iwan G Williams

Swyddog Mentrau Iaith Cymru

Gorffennaf 2011

Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru

1. Amcanion

Mae Mentrau Iaith Cymru yn bodoli i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghymunedau Cymru a chefnogi gwaith y mentrau iaith drwy Gymru.

2. Cefndir

Mae'r mentrau iaith yn unigryw i Gymru, yn gyrff lleol wedi ei sefydlu gan wirfoddolwyr sy'n cydweithio gyda'u swyddogion cyflogedig i gynnal ystod eang ac amrywiol o weithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chryfhau'r defnydd ohoni yn eu cymunedau. Mae 22 Menter Iaith yng Nghymru yn 2010-2011 yn gwasanaethu Cymru.

3. Pwyllgor Rheoli Cwmni Mentrau Iaith Cymru

3.1 Cyfarfodydd

Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2010-2011 o dan gadeiryddiaeth John Llewellyn Thomas.

Mae'r cyfarfodydd bellach yn ymgorffori cyfarfod y prif swyddogion.

Penderfynwyd rhoi'r gorau i gyfarfodydd drwy fidio gynhadledda yn dilyn problemau technegol ar sawl achlysur.

Manylion cyfarfodydd:

Dyddiad	Lleoliad
30 Ebrill 2010	Fidio: Bangor Caerdydd, Aberystwyth
11 Mehefin 2010	Aberystwyth
24 Medi 2010	Aberystwyth
3 Rhagfyr 2010	Aberystwyth
24 Ionawr 2011	Aberystwyth

Bu cefnogaeth parod yr aelodau yn gymorth mawr o safbwynt cwblhau tasgau Mentrau Iaith Cymru. Rhaid diolch yn arbennig i'r swyddogion am ysgwyddo'r baich yn ystod y flwyddyn.

3.2 Swyddogion Cwmni Mentrau Iaith Cymru Cyf

Cadeirydd: John Llewellyn Thomas

Is-gadeirydd: Meirion Ll. Davies

Ysgrifennydd: Iwan G. Williams

Trysorydd: Arwyn Jones

3.3 Cyfarwyddwyr

D Davies

M Ll Davies

T A V Evans

A Ll Jones

C H Morgan

F Roberts

J Ll Thomas (Cadeirydd)

I G Williams

P G Williams

4. Staff Mentrau Iaith Cymru

Mae swyddog Mentrau Iaith Cymru yn gweithio 15 awr yr wythnos drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Menter Iaith Conwy.

Prif ddyletswyddau'r swyddog yw ymgymryd â gwaith Ysgrifennydd y Cwmni, trefnu cyfarfodydd, gwaith gweinyddol cyffredinnol, dosbarthu gwybodaeth, ymgyrchu, ceisiadau am arian a bod yn bwynt cyswllt cyhoeddus i Mentrau Iaith Cymru a'r mentrau unigol.

5. Gweithgareddau Mentrau Iaith Cymru

Mae gweithgareddau amrywiol Mentrau Iaith Cymru yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac yn rhannol ymateb i sefyllfaoedd tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'r gwaith sefydlog craidd yn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein hamcanion, ac hefyd mae peth gweithgaredd ar y cyd yn ein cynorthwyo i gyrraedd rhai o'n targedau.

Isod mae amlinelliad o'r gweithgreddau dros y flwyddyn.

5.1 Brwydr y Bandiau

Mae'r gystadleuaeth hon wedi sefydlu ei hun bellach fel un o'r pwysicaf yng Nghymru yn y byd o gerddoriaeth newydd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth genedlaethol ar y cyd â C2 BBC Radio Cymru.

Mae'n addawol gweld a chlywed y bandiau ifanc brwdfrydig yn cystadlu, fydd yn dod yn rhan hanfodol o'n diwylliant cyfoes ni yn y dyfodol. Llongyfarchiadau i Sian Miriam am enill y gwobrau canlynol:

- cytundeb i recordio Sesiwn i C2, Radio Cymru
- perfformio mewn Gwyl fawr genedlaethol megis Maes B, yr Eisteddfod Genedlaethol
- cael erthygl 'tudalen-lawn' yn un o rifynnau o gylchgrawn 'Y Selar'
- sesiwn luniau (*photoshoot*) hanner diwrnod efo ffotograffydd proffesiynol
- gwahoddiad i berfformio yng Ngwyl Swn (Huw Stephens) 2011
- perfformio ar lwyfan y Pentre Ieuenctid yn y Sioe Frenhinol
- cynnig i chwarae mewn gigs Mentrau Iaith Cymru
- cyfle i berfformio ar Daith Ysgolion C2 2011

Diolch i'r mentrau, y partneriaid ac yr artistiaid am gymeryd rhan.

5.2 Menter Patagonia

Mae Menter Patagonia yn annibynol o Mentrau Iaith Cymru yn gyfansoddiadol, ond yn dal i dderbyn cefnogaeth a mewnbwn gan Mentrau Iaith Cymru ac y mentrau iaith.

Cafodd dau aelod newydd o staff eu cyflogi i wireddu amcanion y prosiect. Bu Llinos Griffin ac Eluned Evans ym Mhatagonia am 9 mis yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus ar y cyd â'r gymuned.

Bu taith o 22 o bobol ifanc i Batagonia o Ogledd Cymru ym mis Hydref 2009 ar y cyd rhwng mentrau'r gogledd ac yr Urdd.

Yn dilyn diwedd cyfnod Llinos Griffin ac Eluned Evans mae Iwan Madog a Lois Dafydd wedi dechrau eu swyddi yn Patagonia yn Mawrth 2011 i weithio am gyfnod o 8 mis.

Yn anffodus ni fu cais am gyllid Gwirvol Rhyngwladol yn llwyddiannus, ond mae'r Cyngor Prydeinig yn dal i gefnogi gymaint ac y mae nhw yn medru ar y prosiect.

5.3 Ymgyrchu a Lobio

5.3.1 Tactegau

Mae Mentrau Iaith Cymru wedi ymgyrchu drwy:

- ymatebion ysgrifenedig
- roi tystiolaeth
- fynychu cyfarfodydd cyhoeddus
- gyfarfod Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones yn Bae Caerdydd Mai 2010
- gyfarfod Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones yn Awst 2010
- gyfarfod BYIG am ddyfodol y Mentrau
- greu dogfen yn cynnwys gwybodaeth am y mentrau
- lythyru holl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i godi ymwybyddiaeth am waith y mentrau iaith a gofyn am eu cefnogaeth
- gydweithio gyda Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
- gydlynu mewnbwn gan y mentrau iaith

5.3.2 Ymgynghoriadau

Mae Mentrau Iaith Cymru wedi ymateb i'r ymgynghoriadau cyhoeddus canlynol gan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol y Gymraeg
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Mesur Iaith Y Gymraeg
- Iaith Fyw:Iaith Byw

5.3.3 Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Strategaeth y Gymraeg

Mae Mentrau Iaith Cymru yn rhan o Grwp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Strategaeth y Gymraeg. Rôl y Grwp yw cynghori'r Llywodraeth ar ddatblygu a gweithredu Strategaeth y Gymraeg yn y cyfnod hyd nes y sefydlir Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.

Sian Lewis Menter Caerdydd ac Owain Gruffydd Menter Bro Dinefwr sydd yn ein cynrychioli ar y grwp.

5.3.4 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (CPTS)

Mae Mentrau Iaith Cymru yn cynrychioli sector Yr Iaith Gymraeg ar y CPTS.

Mae Mentrau Iaith Cymru yn defnyddio gwasanaeth cwmni Sbectrwm i'n cynrychioli yn y cyfarfodydd gyda chymorth grant gan WCVA.

Cafwyd cyflwyniad gan gwmni Sbectrwm yn ein cyfarfod ar y 3ydd o Ragfyr yn adrodd yn ôl am y gwaith o gynnwys y Gymraeg yn rhan o'r trafodaethau.

5.3.5 Cyfarfodydd Lobio

Awst 2010 - Cyflwyniad i'r Gweinidog Treftadaeth, Eisteddfod Glyn Ebwy
Tachwedd 2010 - Cyfarfod Gweinidog Treftadaeth, Caerdydd

5.4. Marchnata

Gyda adnoddau yn brin, mae cyfleoedd marchnata hefyd wedi bod yn brin. Ond llwyddwyd fwy neu lai i barhau gyda'r un lefel o farchnata a'r blynyddoedd diweddar.

5.4.1 Gwyliau Haf

Codwyd proffil Mentrau Iaith Cymru yn ein gwyliau cenedlaethol dros yr Haf gyda gwybodaeth am ein gwaith ar y cyd â mentrau'r de ddwyrain yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Glyn Ebwy a gyda mentrau'r de orllewin yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron.

Penderfynwyd i beidio mynychu Sioe Amaethyddol oherwydd prinder adnoddau.

Diolch i'r mentrau oll am eu gwaith trefnu a staffio ar gyfer y digwyddiadau uchod.

5.4.2 Arlein

Mae gwefan www.mentrau-iaith.com yn parhau i gynnwys gwybodaeth am weithgareddau Mentrau Iaith Cymru a chyswllt at wefannau unigol y Mentrau Iaith.

5.4.3 Partneriaethau

Mae partneriaeth gyda BBC Radio Cymru C2 ar brosiect Brwydr y Bandiau yn dod a llawer o gyhoeddusrwydd i Mentrau Iaith Cymru ac yn codi proffil y mentrau.

5.4.4 Nwyddau marchnata

Mae gan Mentrau Iaith Cymru baneri 'pop-yp', tafleni a baner i'w defnyddio fel y mae angen mewn digwyddiadau ar draws Cymru.

Mae bywyd y nwyddau marchnata presennol yn dod i ddiwedd eu hoes ac mae'n fwriad i gynhyrchu nwyddau newydd y flwyddyn nesaf.

5.5 Cynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allanol

Mae Mentrau Iaith Cymru yn aelod ar amryw o bwyllgorau sydd wedi eu sefydlu gan gyrff a mudiadau eraill. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r mentrau feithrin perthynas gyda chyrff amrywiol, gyda rhai yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo polisïau mewn meysydd sydd yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol a thrwy hynny godi proffil y gwaith a gyflawnir gan y mentrau. Mae cynrychiolaeth Mentrau Iaith Cymru ar y pwyllgorau/ partneriaethau canlynol:

Pwyllgor	Cynrychiolydd
Pwyllgor Partneriaid Bwrdd Yr Iaith Gymraeg	Owain Gruffydd, Menter Bro Dinefwr
Fforymau Iaith Sirol	Aelodau lleol
Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	Cefin Campbell, Sbectrwm

Pwyllgor	Cynrychiolydd
Mudiadau Dathlu'r Gymraeg	Amrywiol
Cyfarfodydd y Trydydd Sector â'r Gweinidog dros Dreftadaeth	Sian Lewis, Menter Caerdydd
Grwp Cynghori ar Strategeth y Gymraeg	Sian Lewis, Menter Caerdydd Owain Gruffydd, Menter Bro Dinefwr

Ar lefel sirol mae gan y Mentrau Iaith gynrychiolaeth ar Bartneriaethau Plant, Partneriaethau Pobl Ifanc a Phwyllgorau Rheoli Cynghorau Gwirfoddoli Sirol ymysg eraill.

5.6 Rhannu ymarfer da

Mae rhannu ymarfer da a phrofiadau yn rhan allweddol o gydweithio rhwng y mentrau iaith. Ond nid yn unig rhwng y mentau mae'r gweithgaredd hyn, mae'n digwydd yn ffurfiol gyda'r canlynol hefyd:

- Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
- Partneriaid Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Gwlad y Basg - wedi denu grant o £1300 i ymweld yn Hydref 2011

5.7 Datblygu Mentrau Iaith Cymru

Gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dod i ben yn 2012, mae wedi bod yn gyfnod o geisio dyfalu sut bydd gwasanaethau cefnogi'r mentrau yn newid yn y dyfodol.

Yng nghyfarfodydd Mentrau Iaith Cymru rydym wedi bod yn trafod syniadau o beth hoffwn weld yn datblygu, gyda'r bwriad o gynyddu gwasanaethau mae Mentrau Iaith Cymru yn medru gynnig i'r mentrau iaith yn ddibynnol ar adnoddau.

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth gan y mentrau, mudiadau gwirfoddol, sefydliadau cefnogi ac yn rhoi dogfen at ei gilydd er mwyn datgan beth hoffwn weld yn y dyfodol. Gobeithiwn bydd y ddogfen wedi ei gwblhau y flwyddyn nesaf.

Byddwn mewn sefyllfa cryfach i lobio ac ymgyrchu dros achosion y Gymraeg gyda'r ddogfen yn ei lle yn cynnig atebion i rhai o'r sialensau o'n blaenau.

5.8 Ariannu

- Arian i Bawb - wedi llwyddo i ddenu £5000 ar gyfer brandio, marchnata, a chyfrifiadur newydd i MIC.
- Rhanbarth y Gogledd wedi gwneud cais at LAG Conwy i gronfa trawsffiniol Cynllun Datblygu Gwledig i greu asiantaeth awyr agored, cynllun cymhathu mewnfudwyr a chyfieithu cymunedol. Wedi bod yn edrych ar y posibilrwydd o wneud cais cenedlaethol drwy LAG Sir Gar.
- Aelodaeth - nid yw 100% o'r mentrau iaith yn talu aelodaeth oherwydd rhesymau amrywiol.
- WCVA - cyfrannu at gostau mynychu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

5.9 Rhedadeg

Trafodwyd y syniad fod y mentrau iaith yn cydweithio gyda'r prosiect â Sion Jobbins mewn sawl cyfarfod, ac mae'r mentrau wedi cytuno mewn egwyddor i fod yn rhan o'r cynllun i drefnu ras redeg ar draws Cymru yn 2012. Bydd yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn codi arian at achosion da yn ymwneud a'r Gymraeg.

5.10 Hyfforddiant Ieuenctid

Trefnwyd tri sesiwn hyfforddiant gan Mentrau Iaith Cymru ar gyfer swyddogion ieuenctid y mentrau iaith ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Aeth Bedwyr ap Gwyn o Menter Iaith Conwy i gynnal y gweithdai am sut i drefnu gweithgareddau yn y de ddwyrain, de orllewin a'r gogledd yn mis Mawrth 2011 ac mi oedd yr adborth i'r sesiynnau yn bositif iawn.

6. Edrych Ymlaen

6.1 Ariannu

- Parhau i edrych ar y posibilrwydd o wneud cais cenedlaethol i gronfa trawsffiniol y Cynllun Datblygu Gwledig.
- Ymateb i gyfleoedd ariannu eraill fel maent yn codi.

6.2 Prosiectau

- Menter Iaith Patagonia - parhau i fewnbynu i'r prosiect.
- Brwydr y Bandiau - cynnal trafodaethau gyda BBC Radio Cymru i gynyddu effeithiolrwydd trefniadau'r gystadleuaeth.
- Rhedadeg - cyd weithio a threfnu gyda'r mudiad ar gyfer y digwyddiad yn 2012

6.3 Ymgyrchu

- Ymgyrchu dros mwy o adnoddau i'r Gymraeg er mwyn sicrhau medru gwireddu'r Strategaeth Iaith newydd. Cydweithio gyda Mudiadau Dathlu'r Gymraeg.
- Cyngor Partneriaeth Sector Gwirfoddol - parhau i fynychu'r cyfarfodydd ac ymateb er budd y Gymraeg.
- Sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol o waith y mentrau iaith.

6.4 Datblygu Mentrau Iaith Cymru

- Datblygu'r ddogfen yn mapio dyfodol Mentrau Iaith Cymru. Symud ymlaen i wireddu amcanion y ddogfen.

7. Casgliadau Clo

Y bwriad yw parhau i ddatblygu gallu Mentrau Iaith Cymru i gael effaith positif ar yr iaith Gymraeg yng nghymunedau Cymru drwy gydweithio'n agos gyda'r mentrau iaith a phartneriaid eraill.

Mae'r angen mwy nag erioed am adnoddau ychwanegol i'r Gymraeg, ond mae'n gyfnod o adnoddau prin, sydd yn golygu gryn dipyn o waith ymgyrchu a lobio dros y Gymraeg a cheisio dylanwadu ar benderfyniadau sydd yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.

8. Atodiadau

Atodiad 1

Mentrau Iaith 2010 - 2011

1) Menter Iaith **Abertawe**
2) Menter Iaith **Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy**
3) Menter **Bro Dinefwr**
4) Menter Iaith **Bro Ogwr**
5) Menter **Brycheiniog a Maesyfed**
6) Menter **Caerdydd**
7) Menter Iaith **Castell-nedd Port Talbot**
8) **Cered**
9) Menter Iaith **Conwy**
10) Menter **Cwm Gwendraeth Llanelli**
11) Menter **Gorllewin Sir Gar**
12) **Hunaniaith**
13) Menter Iaith **Maelor**
14) Menter **Maldwyn**
15) Canolfan a Menter Gymraeg **Merthyr Tudful**
16) Menter Iaith **Môn**
17) Menter Iaith **Rhondda Cynon Taf**
18) Menter Iaith **Sir Benfro**
19) Menter Iaith **Sir Caerffili**
20) Menter Iaith **Sir Ddinbych**
21) Menter Iaith **Sir y Fflint**
22) Menter **Y Fro**

Atodiad 2

Gweithgaredd mentrau iaith 2009-2010

Ffeithiau

22 Menter Iaith yng Nghymru

Dros 280 o aelodau staff

Dros 1,300 o wirfoddolwyr yn cydweithio gyda'r Mentrau Iaith

Cynnal dros 13,000 o weithgareddau cymunedol y flwyddyn

Dros 160,000 o gyfranogwyr

Gwerth am Arian

Rhwng y Mentrau, maent yn derbyn grantiau o £1,498,983 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae'r Mentrau yn codi £2,138,572 o ffynhonnell eraill, sydd yn golygu fod cyfraniad Bwrdd yr Iaith yn 41% o gyfanswm incwm y Mentrau.

[Yr uchod yn seliedig ar ffigyrau 2009-2010]

Gweithgareddau

Chwaraeon

Beicio Mynydd
Canwio
Cerdded
Clwb Achub Bywyd
Cystadleuaeth Pel-droed
Cystadleuaeth Rygbi
Dringo
Eirafyrddio
Golff
Hwylfyrddio
Ioga
Merlota
Nofio
Pysgota
Syrffio

CymdeithasolBoreau coffi

Clwb Cymdeithasol i blant ag Anghenion Arbennig
Clybiau clocsio
Coginio
Corau Ieuenctid
Cwisiau
Cyri a chan
Gigs Ieuenctid
Gweithdai roc
Nosweithiau cwis
Nosweithiau ffilm
Sesiynau blasu
Teithiau i bobol ifanc

DiwylliannolAnimeiddio

Barddoni
Celf a chrefft
Cerddoriaeth
Cyngherddau
Dawns
Drama i Blant
Drama i Oedolion
Ffotograffiaeth
Sioe Cwmni Perfformio
Sbarc
Sioe Dalent
Teithiau diwylliannol
Theatr
Ysgol Berfformio

Dysgwyr

Clonc a phaned
Sadwrn Siarad
Sesiynau Cymraeg
Ysgolion Ail Iaith
Siop Siarad
Teithiau cerdded

Gwyliau

Bwrlwm y Bannau
Eisteddfod Cylch
Eisteddfod Sir
Gigs Tyrfe Tawe
Gwener y Grolch
Gwyl Bedroc
Gwyl Bro Dinefwr
Gŵyl Cefni
Gŵyl Fwyd
Gŵyl Hwyl Llandybie
Gŵyl Menter Bro Ogwr
Gŵyl Pentre Byd Eang
Gŵyl Y Ffin
Gŵyl Y Gwach
Llanast Llanrwst
Stondinau mewn Gwyliau/ Sioeau ayb
Tafwyl
Tyrfe Tawe

Hyfforddiant

Blasu Gwin
Boxercise
Celf
Circuits
Clybiau Breakdance
Coginio
Coginio
Cymraeg i Rieni
Cyrsiau Celf
Cyrsiau Preswyl
Cyrsiau Ymwybyddiaeth iaith
Dawns Latin
Dawns Salsa
Dylunio Gwefannau
Ffotograffiaeth
Ffrangeg
Garddio
Graffiti
Guitar
Gweithdai “beatbox”
Gwersi Cyfrifiadurol
Gwersi Drymio
Gwersi Telyn
Gwnio
Hanes
Hyfforddiant Cymraeg i Weithwyr Ieuenctid
Ioga
Rhaglenni radio Sbaeneg
Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Ieuenctid
Sesiynau Ysgrifennu creadigol
Sesiynnau ymwybyddiaeth iaith Cynghorau Sir

Teuluoedd, plant a bobol ifanc

Canu Gyda Babi
Clybiau ar ôl ysgol
Clybiau Brecwast
Clybiau Chwarae
Clybiau Cinio
Clybiau Colur Theatr
Clybiau Darllen
Clybiau Gofal
Clybiau Ieuenctid
Clybiau rhieni
Cwrs Babi Realaeth
Cynlluniau chwarae
Gemau Buarth Gymraeg
Gweithdai a sesiynau gwybodaeth iechyd i blant a phobl ifanc
Gwiethdy fideo pop
Helpa Fi Wneud Cân
Hwyl Haf
Hwyl y Pasg
Jamboris
Mabolgampau Meithrin
Miri Meithrin
Parti Plant
Teithiau cylchoedd Meithrin
Teithiau cylchoedd Ti a Fi
Ymgynghoriadau plant a phobl ifanc

Partneriaid

5X60
Amgueddfeydd
Athrawon Bro
Busnesau
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Byrddau Iechyd
Campau
Canolfannau Chwaraeon
Canolfannau Teulu
Capeli
Cerdd Cymunedol Cymru
Chwarae Teg
Ciwdod
Clybiau Chwaraeon
Clybiau Cinio
Clybiau Gwawr
Clybiau Plant
Coleg Harlech/WEA
Colegau
Cwmniau Teledu
Cwmniau Theatr
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Cymdeithasau Tai
Cymraeg i Oedolion
Cymunedau'n Gyntaf
Cynghorau Dinasoedd, Trefi a Phentrefi
Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
Cynghorau Sir
Cyngor Cefn Gwlad
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cynllun Iaith a Chwarae
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dechrau'n Deg
Eglwysi
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Estyn Llaw
Ffermwyr Ifanc Cymru
Gorsafoedd Radio Cenedlaethol
Gorsafoedd Radio Lleol
Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluol
Gwasanaeth Ieuenctid
Gwobr Dug Caeredin
Gyrfa Cymru
Llwybrau'r Brig
Llyfrgelloedd
Llywodraeth Cymru
Merched y Wawr
Mudiad Ysgolion Meithrin
Mudiadau a Grwpiau Gwirfoddol Lleol
Mudiadau Atal Troseddau
Noson Allan
Papurau Bro
Papurau Cenedlaethol
Partneriaeth Awyr Agored
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Prifsygolion
Rhieni dros Addysg
Gymraeg
S4C
Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig
Theatrau
TRAC Cymru
TWF
WEFO
Y Groes Goch
Y Gwasanaeth Tan
Ymddiriedolaeth Iechyd
Ymddiriedolaeth y Tywysog
Yr Academi
Yr Urdd
Ysgolion Gynradd
Ysgolion Uwchradd

Atodiad 3

Datganiad Ariannol